Sgiliaith

Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol

Sgiliaith

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PROSBECTWS
PROSPECTUS

www.gllm.ac.uk/sgiliaith/

@sgiliaith

"Nod Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol Sgiliaith yw darparu hyfforddiant a chyngor ymarferol ar adnoddau ac arferion da i staff er mwyn gwella sgiliau a phrofiadau dysgwyr mewn perthynas â dwyieithrwydd.

The aim of Sgiliaith's National Staff Development Programme is to provide training and practical advice on good practice and resources to staff in order to enhance learners' bilingual skills and experiences."

Cynnwys
Content

Cyflwyniad

2 Croeso
3 Cyd-destun strategol
4 Pa hyfforddiant sy'n iawn i mi?
5 Adborth

Cyrsiau hyfforddiant

6 Ymwybyddiaeth Iaith yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru - TAOR
7 Ymwybyddiaeth Iaith yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru - Cymraeg Gwaith
8 Gweithdy Mewnosod y Gymraeg
9 Twlcit Dwyieithrwydd i Diwtoriaid
10 Twlcit Dwyieithrwydd i Aseswyr
11 Cwrs Cyflwyniad i Addysgu Dwyieithog
12 Modiwl MA ar Fethodoleg Addysgu Dwyieithog
13 Gweithdy ar Ddylunio Adnoddau Dwyieithog
14 Cynllun Mentora

Introduction

2 Welcome
3 Strategic context
4 Which training is right for me?
5 Feedback

Training courses

6 Language Awareness in the context of Education in Wales - PGCE
7 Language Awareness in the context of Education in Wales - Work Welsh
8 Embedding the Welsh Language Workshop
9 Tutors' Bilingualism Toolkit
10 Assessors' Bilingualism Toolkit
11 Introduction to Bilingual Teaching Course
12 Bilingual Teaching Methodology MA Module
13 Designing Bilingual Resources Workshop
14 Mentoring Programme

Croeso
Welcome

(01758) 704613
sgiliaith@gllm.ac.uk

Croeso i brosbectws Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol Sgiliaith.

Mae Canolfan Sgiliaith wedi darparu cymorth ar ddwyieithrwydd, addysg cyfrwng Cymraeg a sgiliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg i golegau Addysg Bellach a sefydliadau addysg ôl-14 eraill ledled Cymru ers ei sefydlu yn 2001.

Mae'r prosbectws hwn yn cynnwys manylion ein rhaglen hyfforddiant arloesol i staff yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau i'w cefnogi i gynnig darpariaeth Gymraeg a ddwyieithog i ddysgwyr a phrentisiaid. Gallwn deilwra'r cyrsiau i faes pwnc penodol, er enghraifft: Iechyd a Gofal neu Wasanaethau Cyhoeddus. Cysylltwch â swyddfa Sgiliaith am ragor o fanylion.

Ceir hefyd wybodaeth am ein cynllun mentora i ddarlithwyr ac aseswyr sy'n ymgymryd â chwrs TAOR neu TAQA, neu sydd eisoes wedi llwyddo i ennill y cymwysterau hyn yn ddiweddar. Mae hefyd yn agored i ymarferwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cymraeg Gwaith mewn Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

Ariennir y Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Staff y sector addysg ôl-14 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Golyga hyn ein bod yn gallu cynnig ein darpariaeth am ddim i'r sectorau Addysg Bellach a phrentisiaethau.

Am ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth, mae croeso mawr i chi gysylltu â ni yn swyddfa Sgiliaith.

Gwennan Richards
Rheolwr Sgiliaith

Welcome to Sgiliaith's National Staff Development Programme prospectus.

Canolfan Sgiliaith has offered support on bilingualism, Welsh-medium education and Welsh and English communication skills to Further Education colleges and other post-14 education institutions across Wales since its establishment in 2001.

This prospectus contains details of our innovative training programme for staff in the further education and apprenticeship sectors to support them in offering Welsh language and bilingual provision to learners and apprentices. We can tailor the courses to a specific subject area, for example: Health and Care or Public Services. Please contact Sgiliaith's office for further information.

There is also information about our mentoring support for lecturers and assessors who are undertaking a PGCE or TAQA course, or who have recently achieved these qualifications. It is also open to practitioners who participate in the Further Education and Apprenticeships Work Welsh scheme.

The National Staff Development Programme for staff in the post-14 education sector is funded by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, which enables us to offer our provision free to the Further Education and apprenticeship sectors.

For further information about the provision, please contact the Sgiliaith office.

Gwennan Richards
Sgiliaith Manager

Cyd-destun strategol
Strategic context

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr gydag uchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan y sector addysg ôl-orfodol i chwarae yn hyn, yn enwedig o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwyn ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog.

Cyhoeddwyd yn 2017 y byddai rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ehangu i gynnwys addysg ôl-orfodol, yn ogystal â'r prifysgolion. Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr 2019. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill, sy'n arwain ar gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector yn unol â'r cynllun gweithredu.

Yn ogystal â hyn, mae pob coleg addysg bellach yng Nghymru'n gweithredu o dan Safonau Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Golyga hyn fod gan ddarparwyr ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i ddysgwyr, staff a'r cyhoedd.

Mae Canolfan Sgiliaith wedi cynnig cymorth ar ddwyieithrwydd, addysg cyfrwng Cymraeg a sgiliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg i golegau Addysg Bellach a sefydliadau addysg ôl-14 eraill ledled Cymru ers ei sefydlu yn 2001. Darperir hyfforddiant a chyngor ymarferol ar arferion da ac adnoddau i staff gyda'r nod o gynyddu sgiliau a phrofiadau Cymraeg staff a myfyrwyr.

Mae Sgiliaith yn ganolfan arloesol, ddeinamig sy'n gweithio'n hyblyg ac yn cynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf i ymateb i'r galw yn y sector am gefnogaeth, hyfforddiant, adnoddau a chymwysterau Cymraeg a dwyieithog.

In 2017, the Welsh Government published its Welsh language strategy Cymraeg 2050: A Million Speakers with an ambition to reach one million Welsh speakers by 2050. The strategy recognises the key role that the post-compulsory education sector has to play in this, in particular to maintain learners' Welsh language skills in order to meet the growing demand for a bilingual workforce.

It was announced in 2017 that the role of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol would expand to include post-compulsory education, as well as the universities. The Further Education and Apprenticeships Welsh-medium Action Plan was launched in January 2019. The Coleg Cymraeg Cenedlaethol, in partnership with other key organisations, lead on increasing Welsh language and bilingual provision in the sector in line with the action plan.

In addition, all further education colleges in Wales operate under the Welsh Language Commissioner's Welsh Language Standards. This means that providers have a duty to provide services in Welsh for learners, staff and the public.

Canolfan Sgiliaith has offered support on bilingualism, Welsh-medium education and Welsh and English communication skills to Further Education colleges and other post-14 education institutions across Wales since its establishment in 2001. Training and practical advice on good practice and resources are provided with the aim of increasing the Welsh language skills and experiences of staff and students.

Sgiliaith is an innovative and dynamic centre, working flexibly to respond to the sector's demand for Welsh language and bilingual support, training, resources and qualifications by offering a first class service.

Pa hyfforddiant sy'n iawn i mi?
Which training is right for me?

Mae Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol Sgiliaith yn cynnig hyfforddiant amrywiol sy'n sicrhau bod hyfforddiant ar gynnig darpariaeth Gymraeg a ddwyieithog i ddysgwyr a phrentisiaid ar gael i bawb sy'n gweithio yn y sector, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg neu brofiad blaenorol.

Mae ein rhaglen hyfforddiant yn caniatáu dilyniant i ymarferwyr i fyny'r pyramid sgiliau iaith: ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder a rhuglder. Gellir defnyddio'r pyramid isod i ganfod pa hyfforddiant sy'n addas i'ch sgiliau Cymraeg neu brofiad blaenorol.

Sgiliaith's National Staff Development Programme offers a variety of courses that ensure that training on offering Welsh language and bilingual provision to learners and apprentices is available to everyone working in the sector, regardless of their Welsh language skills or previous experience.

Our training programme allows a progression for practitioners up the language skills pyramid: awareness, understanding, confidence, fluency. The pyramid below can be used to find out which training suits your Welsh language skills or previous experience.



Adborth Feedback

(01758) 704613
sgiliaith@gllm.ac.uk

Beth mae ymarferwyr yn ei ddweud am yr hyfforddiant?

What do practitioners say about the training?

"Ro'n i'n teimlo bod y sesiwn hwn yn fuddiol iawn i mi. Roedd yn berthnasol, yn llawn gwybodaeth ac yn rhannu syniadau y gallaf eu defnyddio yn fy nosbarth. Roedd y tiwtor yn wybodus ac yn gyfeillgar."

"I felt this session was very beneficial to me. It was relevant and informative and shared ideas that can be used in my class. The tutor wasknowledgeable and approachable."

Twlcit Dwyieithrwydd i Diwtoriaid / Tutors' Bilingualism Toolkit

"Mind blowing, wrth fy modd efo y cwrs, yn enwedig Helen a Sioned yn egluro yn glir. Rydw i wedi cael llawer o syniadau i ymarfer a defnyddio yn y dosbarth. Werth chweil."

"Mind blowing, delighted with the course, especially Helen and Sioned clearly explaining. I've had lots of ideas to practice and use in class. Well worth it."

Cwrs Cyflwyniad i Addysgu Dwyieithog / Introduction to Bilingual Teaching Course

"Mewnwelediad da iawn i'r Gymraeg a phwysigrwydd ei gyflwyno i'n dysgwyr. Llawer o syniadau a gwybodaeth ddiddorol wedi'u cyflwyno mewn modd clir a ddi-dychrynllyd."

"Very good insight to the Welsh language and the importance of introducing it to our learners. Lots of interesting ideas and information presented in a clear and unintimidating manner."

Twlcit Dwyieithrwydd i Aseswyr / Assessors' Bilingualism Toolkit

"Llawer iawn o wybodaeth, awgrymiadau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac adnoddau ar-lein."

"Lots of information, tips for increasing the use of Welsh in the classroom and online resources."

Gweithdy Mewnosod y Gymraeg / Embedding the Welsh Language Workshop

"Mae astudio'r Modiwl MA wedi gwneud fi'n fwy hyderus i ddysgu yn ddwyieithog. Rwyf wedi cael llawer o syniadau o'r sesiynau ac yn dal i ddefnyddio nhw yn y dosbarth."

"Studying the MA Module has made me more confident to teach bilingually. I have gotten lots of ideas from the sessions and still use them in the classroom."

Modiwl MA ar Fethodoleg Addysgu Dwyieithog / Bilingual Teaching Methodology MA Module

"Golwg fanwl ar sut y gallem ddefnyddio adnoddau dwyieithog gyda dysgwyr. Cyflwyno gwefannau a ffyrdd newydd o annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth astudio."

"An in-depth look at how we might use bilingual resources with learners. Introduced new websites and ways to encourage learners to use Welsh whilst studying."

Gweithdy ar Ddylunio Adnoddau Dwyieithog / Designing Bilingual Resources Workshop

"Mae mentora Sgiliaith wedi fy helpu yn aruthrol. Mae hyder fi wedi tyfu. Mae fy holl arddangosfeydd llythrennedd bellach yn ddwyieithog ac os mae myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fy nosbarth, mi wnaf siarad gyda nhw yn Gymraeg."

"Sgiliaith mentoring has helped me tremendously. My confidence has grown. All my literacy displays are now bilingual and if there are Welsh first language students in my class, I will speak to them in Welsh."

Cynllun Mentora / Mentoring Programme

"Roedd popeth yn berthnasol i fy addysgu a gwersi ac mae gen i lawer o syniadau ar ôl y wers hon. Rydw i'n teimlo llawer mwy hyderus wrth wreiddio Cymraeg yn fy ngwersi."

"Everything was relevant to my teaching and lessons plus I have a lot of ideas from this lesson. I feel much more confident in embedding Cymraeg into my lessons."

Ymwybyddiaeth Iaith yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru - Cymraeg Gwaith / Language Awareness in the context of Education in Wales - Work Welsh

Ymwybyddiaeth Iaith yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru - **TAOR**

Language Awareness in the context of Education in Wales - **PGCE**

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw gwella dealltwriaeth unigolion o'r agweddau ehangach sy'n gysylltiedig ag iaith a diwylliant.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Casglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth iaith ac yn archwilio eu hymateb eu hunain i faterion iaith;
- Gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ragfarn, gwahaniaethu a stereoteipio, gan roi sylw arbennig i wahaniaethu ar sail iaith;
- Derbyn diweddariad o sefyllfa'r Gymraeg o ran polisïau a threfniadau ansawdd presennol mewn addysg ar lefel leol a chenedlaethol.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Mae'r hyfforddiant yn addas ar gyfer cyrsiau TAOR mewn addysg ôl-orfodol. Mae'r hyfforddiant yn addas i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Hyd a lleoliad
Gall hyd y hyfforddiant cael ei deilwra ar gyfer anghenion penodol y sefydliad dan sylw. Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The purpose of this training is to improve individuals' understanding of wider aspects related to language and culture.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Gather information on language awareness and explore how they themselves respond to language issues;
- Improve their awareness and understanding of stereotyping, prejudice and discrimination, with special attention given to discrimination on the basis of language;
- Be provided with an update on the position of the Welsh Language on a local and national level with regard to policies and standards.

Is this training right for me?
This training is suitable for PGCE courses in post-compulsory education. The training is suitable for Welsh and non-Welsh speakers.

Length and location
The duration of the training can be tailored to suit the specific needs of individual organisations. The training is held online. Subject to Covid-19 restrictions, training can take place face-to-face at a convenient location (college or organisation).

Mae Sgiliaith yn cynnig cynllun mentora i ymarferwyr TAOR neu TAQA, neu ymarferwyr sydd wedi cwblhau un o'r rhain yn ddiweddar. Mae'r rhaglen yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd gyda dysgwyr yn y dosbarth a/neu yn y gweithle.

Sgiliaith offers a mentoring programme for PGCE or TAQA practitioners, or practitioners who have recently completed one of these. The programme offers guidance and support to embed Welsh/bilingualism with learners in the classroom and/or in the workplace.

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn y cynllun mentora.
Click here to express an interest in the mentoring programme.

Ymwybyddiaeth Iaith yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru - **Cymraeg Gwaith**

Language Awareness in the context of Education in Wales - **Work Welsh**

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw gwella dealltwriaeth unigolion o'r agweddau ehangach sy'n gysylltiedig ag iaith a diwylliant.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Casglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth iaith ac yn archwilio eu hymateb eu hunain i faterion iaith;
- Gwella eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ragfarn, gwahaniaethu a stereoteipio, gan roi sylw arbennig i wahaniaethu ar sail iaith;
- Derbyn diweddariad o sefyllfa'r Gymraeg o ran polisïau a threfniadau ansawdd presennol mewn addysg ar lefel leol a chenedlaethol;
- Dechrau meddwl am sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg newydd mewn ffyrdd gwerthfawr yn y dosbarth.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Mae'r hyfforddiant yn addas ar gyfer ymarferwyr sy'n dilyn y rhaglen Cymraeg Gwaith.

Hyd a lleoliad
Gall hyd y hyfforddiant cael ei deilwra ar gyfer anghenion penodol y sefydliad dan sylw. Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The purpose of this training is to improve individuals' understanding of wider aspects related to language and culture.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Gather information on language awareness and explore how they themselves respond to language issues;
- Improve their awareness and understanding of stereotyping, prejudice and discrimination, with special attention given to discrimination on the basis of language;
- Be provided with an update on the position of the Welsh Language on a local and national level with regard to policies and standards;
- Start to think about how they can put their Welsh language skills to valuable use in the classroom.

Is this training right for me?
This training is suitable for practitioners taking part in the Work Welsh programme.

Length and location
The duration of the training can be tailored to suit the specific needs of individual organisations. The training is held online. Subject to Covid-19 restrictions, training can take place face-to-face at a convenient location (college or organisation).

Mae Sgiliaith yn cynnig cynllun mentora i ymarferwyr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith mewn Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Mae'r rhaglen yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd gyda dysgwyr yn y dosbarth a/neu yn y gweithle.

Sgiliaith offers a mentoring programme for practitioners taking part in the Further Education and Apprenticeships Work Welsh scheme. The programme offers guidance and support to embed Welsh/bilingualism with learners in the classroom and/or in the workplace.

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn y cynllun mentora.
Click here to express an interest in the mentoring programme.

Gweithdy Mewnosod y Gymraeg
Embedding the Welsh Language Workshop

Manylion allweddol

Nod
Dyma weithdy byr sy'n rhoi cyfle i ymarferwyr ystyried eu harferion presennol o safbwynt 'mewnosod y Gymraeg' a thrafod gofynion Estyn wrth fynd ati i gynllunio rhaglenni addysgu safonol ar gyfer dysgwyr ôl-14 yng Nghymru.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Ystyried arferion presennol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg mewn gwersi;
- Trafod enghreifftiau ymarferol o fewnosod y Gymraeg mewn gwersi;
- Datblygu syniadau ymarferol newydd ar gyfer mewnosod y Gymraeg mewn gwersi.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir yr hyfforddiant at diwtoriaid ac aseswyr. Mae'r hyfforddiant yn addas i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Hyd a lleoliad
Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein mewn sesiwn awr a hanner. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
This is a short workshop that gives practitioners the opportunity to consider their personal practice regarding 'embedding the Welsh language' and discuss Estyn's requirements in order to plan a standard teaching programme for post-14 learners in Wales.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Consider present practice for embedding the Welsh language and culture within lessons;
- Discuss practical examples for embedding the Welsh language within lessons;
- Develop new practical ideas for embedding the Welsh language within lessons.

Is this training right for me?
This training is aimed at tutors and assessors. The training is suitable for Welsh and non-Welsh speakers.

Length and location
The training is held online in an hour and a half session. Subject to Covid-19 restrictions, the training can take place face-to-face at a convenient location (college or organisation).

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.

Click here to express an interest in this training.

"Amgylchedd cefnogol sydd wedi fy ysbrydoli i gofleidio mwy ar y Gymraeg. Wedi ei gyflwyno gan hyfforddwr brwdfrydig mewn ffordd broffesiynol."

"Supportive environment which has inspired me to embrace the Welsh language more. Delivered by an enthusiastic trainer in a professional way."

Twlcit Dwyieithrwydd i Diwtoriaid
Tutors' Bilingualism Toolkit

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw rhoi enghreifftiau ymarferol o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Archwilio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau ymarferol i ddatblygu dwyieithrwydd yn eu maes pwnc;
- Adnabod termau allweddol a datblygu geirfa gyffredinol sy'n berthnasol i'r maes pwnc, ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu adnoddau dwyieithog o'r newydd;
- Cael cyfle i adfyfyrio a chynllunio i ddatblygu dwyieithrwydd yn y dosbarth.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir yr hyfforddiant at diwtoriaid sy'n addysgu grwpiau dwyieithog. Mae'r hyfforddiant yn addas i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Hyd a lleoliad
Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein dros ddau sesiwn (awr a hanner yr un), ac mae angen bod yn bresennol yn y ddau ohonynt. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn sesiwn tair awr mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The purpose of this training is to demonstrate practical examples of using Welsh in the classroom.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Explore a variety of practical methods and techniques to develop bilingualism in their subject area;
- Identify key terms and general sector specific vocabulary, and identify opportunities to produce new bilingual resources;
- Have an opportunity to reflect and plan to develop bilingualism in the classroom.

Is this training right for me?
This training is aimed at tutors who teach bilingual groups. The training is suitable for Welsh and non-Welsh speakers.

Length and location
The training is held online over two sessions (hour and a half each), and attendance is required at both. Subject to Covid-19 restrictions, the training can take place face-to-face in a three hour session at a convenient location (college or organisation).

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.

Click here to express an interest in this training.

"Symud yn dda, rhyngweithiol, taflenni defnyddiol. Mae gan yr hyfforddwr wybodaeth ardderchog o'r pwnc. Gwych i fy helpu gyda Cymraeg yn y dosbarth a gyda myfyrwyr."

"Well paced, interactive, useful handouts. The trainer has an excellent knowledge of the subject. Great to help me with Welsh in the class and with students."

Twlcit Dwyieithrwydd i Aseswyr
Assessors' Bilingualism Toolkit

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw rhoi cefnogaeth i aseswyr ehangu eu defnydd o'r Gymraeg gyda dysgwyr yn y gweithle.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Archwilio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau ymarferol i ddatblygu dwyieithrwydd gyda dysgwyr yn y gweithle;
- Trafod arferion Estyn wrth fynd ati i gynllunio rhaglen asesu safonol ar gyfer y dysgwr dwyieithog;
- Cymryd rhan mewn gweithdy ar adnabod termau allweddol a geirfa ddwyieithog yn y maes pwnc i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg;
- Cael cyfle i adfyfyrio a chynllunio i ddatblygu dwyieithrwydd gyda dysgwyr.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir yr hyfforddiant at aseswyr sy'n gweithio gydag unigolion dwyieithog. Mae'r hyfforddiant yn addas i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Hyd a lleoliad
Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein dros ddau sesiwn (awr a hanner yr un), ac mae angen bod yn bresennol yn y ddau ohonynt. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn sesiwn tair awr mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The purpose of this training is to support assessors to enhance their use of the Welsh language with learners in the workplace.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Explore a variety of practical methods and techniques to develop bilingualism with learners in the workplace;
- Discuss Estyn's requirements in order to plan a high quality assessment programme for the bilingual learner;
- Take part in a workshop to identify key terms and subject specific vocabulary to expand the use of the Welsh language;
- Have the opportunity to reflect and plan in order to develop bilingualism with learners.

Is this training right for me?
This training is aimed at assessors working with bilingual individuals. The training is suitable for both Welsh and non-Welsh speakers.

Length and location
The training is held online over two sessions (hour and a half each), and attendance is required at both. Subject to Covid-19 restrictions, the training can take place face-to-face in a three hour session at a convenient location (college or organisation).

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.

Click here to express an interest in this training.

"Llawer o wybodaeth i'm hysbrydoli. Cyflwyniad clir ar sut i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog i brentisiaid yng Nghymru gydag adnoddau gwych."

"Very informative and inspirational. A clear delivery of how to improve bilingual provision to apprentices in Wales with excellent resources."

Cwrs Cyflwyniad i Addysgu Dwyieithog

Introduction to Bilingual Teaching Course

Manylion allweddol

Nod
Nod yr hyfforddiant yw cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n addysgu neu asesu'n ddwyieithog. Ceir cyflwyniad i'r gwahanol ffactorau sydd angen eu hystyried er mwyn cynnal dysgu, addysgu ac asesu dwyieithog effeithiol.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Dysgu am ddiffiniadau ac enghreifftiau ymarferol o ddulliau addysgu dwyieithog cadarn ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd ieithyddol, a sut i gynllunio ar eu cyfer;
- Defnyddio proffiliau iaith wrth gynllunio addysgu;
- Derbyn cyngor ar sut i ddod o hyd i adnoddau dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, a sut i greu eu hadnoddau eu hunain;
- Cael cyfle ymarferol i ddefnyddio eu sgiliau addysgu dwyieithog newydd mewn sesiwn micro-addysgu.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir yr hyfforddiant at ymarferwyr sy'n gallu cyfathrebu'n llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond nad oes ganddynt yr hyder neu'r profiad i addysgu neu asesu dysgwyr dwyieithog.

Hyd a lleoliad
Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein dros bedwar sesiwn, ac mae angen bod yn bresennol yn bob un ohonynt. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb dros ddau ddiwrnod llawn mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The aim of the training is to increase the number of practitioners who teach or assess bilingually. The various factors that need to be considered in order to maintain effective bilingual teaching, learning and assessment are introduced.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Be provided with definitions and practical examples of good practice in bilingual teaching in a range of linguistic situations;
- Use language profiles to inform their teaching;
- Be given advice on finding bilingual and Welsh-medium learning resources, and creating their own materials;
- Have the opportunity to utilise their new bilingual teaching skills in a micro-teaching session.

Is this training right for me?
The training is aimed at practitioners who are able to communicate fully in Welsh and English, but don't have the experience or confidence to teach or assess bilingual learners.

Length and location
The training is held online over four sessions, and attendance is required at all of them. Subject to Covid-19 restrictions, training can take place face-to-face over two full days at a convenient location (college or organisation).

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.
Click here to express an interest in this training.

Modiwl MA ar Fethodoleg Addysgu Dwyieithog

Bilingual Teaching Methodology MA Module

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas y modiwl 30 credyd hwn ar lefel M (7) yw paratoi ymarferwyr i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus ac yn effeithiol gan ddefnyddio'r ddwy iaith yn gytbwys a phriodol yn unol ag anghenion ieithyddol y grŵp dysgu.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwr sy'n ymgymryd â'r modiwl yn:

- Meithrin hyder ac arbenigedd wrth ddatblygu a darparu addysg ddwyieithog;
- Ymgymryd ag ymchwil gweithredol sy'n gwerthuso sut y gallant ddefnyddio ymyraethau mewn addysgu dwyieithog i ddylanwadu ar ddysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac mewn asesiadau ysgrifenedig;
- Cael eu harsylwi'n dysgu yn eu gweithle gan diwtor Sgiliaith;
- Derbyn cymorth tiwtorial personol 1-1;
- Cael budd o wrando ar siaradwyr gwadd ag arbenigeddau mewn ysgrifennu academaidd, addysgu dwyieithog ac ati.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir y modiwl at ymarferwyr sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ond nad oes ganddynt yr hyder i addysgu grwpiau cymysg eu hiaith.

Hyd a lleoliad
Cynhelir y modiwl ar-lein dros wyth sesiwn, ac mae angen bod yn bresennol ym mhob un ohonynt. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall y modiwl ddigwydd wyneb yn wyneb dros bum diwrnod llawn mewn lleoliad cyfleus.

Key details

Aim
The purpose of this 30 credit module at level M (7) is to prepare practitioners to work confidently and effectively through the medium of Welsh and English using both languages in a balanced and appropriate manner according to the language needs of the teaching group.

What to expect
All practitioners undertaking the module will:

- Develop confidence and expertise in the development and delivery of bilingual education;
- Undertake action research that evaluates how they can develop interventions in bilingual teaching that have an impact on learners as they develop their use of Welsh in the classroom and in written assessments;
- Be observed learning in his workplace by a Sgiliaith tutor;
- Receive 1-1 personal tutorial support;
- Have the benefit of listening to guest speakers with expertise in academic writing, bilingual teaching etc.

Is this training right for me?
The module is aimed at practitioners who can communicate fluently in English and Welsh but lack the confidence to teach mixed language groups.

Length and location
The module is held online over eight sessions, attendance is required at all of them. Subject to Covid-19 restrictions, the module can take place face-to-face over five full days at a convenient location.

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.
Click here to express an interest in this training.

Gweithdy ar Ddylunio Adnoddau Dwyieithog
Designing Bilingual Resources Workshop

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas yr hyfforddiant hwn yw adnabod cyfleoedd a darparu cefnogaeth i ymarferwyr gynhyrchu adnoddau dwyieithog.

Blas ar y cynnwys
Bydd yr ymarferwr sy'n ymgymryd â'r cwrs yn:

- Ymgyfarwyddo â gwefannau ac adnoddau ar-lein sy'n ddefnyddiol i gasglu termau allweddol;
- Trafod dyluniad adnoddau dwyieithog gan gynnwys enghreifftiau o arferion da ac arferion i'w hosgoi;
- Cael cefnogaeth i greu adnoddau dysgu a thermau allweddol dwyieithog sy'n benodol i'w maes pwnc.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir yr hyfforddiant at ymarferwyr sy'n dysgu grwpiau dwyieithog. Mae'r hyfforddiant yn addas i siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Hyd a lleoliad
Cynhelir yr hyfforddiant ar-lein mewn sesiwn tair awr. Yn ddibynnol ar gyfyngiadau Covid-19, gall yr hyfforddiant ddigwydd wyneb yn wyneb mewn lleoliad cyfleus (coleg neu sefydliad).

Key details

Aim
The purpose of this training is to identify opportunities and provide support for practitioners to produce bilingual resources.

What to expect
All practitioners undertaking the course will:

- Be introduced to websites and other useful online resources for finding key terms;
- Discuss the design of bilingual resources and be shown examples of good and bad practice;
- Be supported to create subject specific bilingual teaching resources and bilingual key terms.

Is this training right for me?
This training is aimed at practitioners who teach bilingual groups. The training is suitable for Welsh and non-Welsh speakers.

Length and location
The training is held online in a three hour session. Subject to Covid-19 restrictions, the training can take place face-to-face at a convenient location (college or organisation).

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn yr hyfforddiant hwn.

Click here to express an interest in this training.

"Wedi cyflwyno gwefannau defnyddiol a ffyrdd diddorol i mi annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hefyd wedi fy helpu i ddatblygu fy adnoddau dwyieithog fy hun ar gyfer gwersi."

"Useful websites and introduced inspiring ways of encouraging students to use the Welsh language. It also helped me to develop my own bilingual resources for the classroom."

Cynllun Mentora
Mentoring Programme

Manylion allweddol

Nod
Pwrpas y cynllun mentora yw cefnogi ymarferwyr mewn sefyllfaoedd dysgu real drwy gynnig arweiniad a chefnogaeth iddynt i fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd gyda dysgwyr yn y dosbarth a/neu yn y gweithle.

Blas ar y cynnwys
Mae'r cynllun wedi ei gynllunio i gefnogi ymarferwyr mewn sefyllfaoedd dysgu ac asesu real drwy:

- Gynnig arweiniad i gefnogi ymarferwyr wrth fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd gyda dysgwyr yn y dosbarth a/neu yn y gweithle;
- Amlinellu'r angen i ddatblygu'r ymarfer o fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd mewn ffordd sy'n naturiol a chytbwys;
- Trafod methodoleg i ddatblygu technegau gwahanol wrth fewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd;
- Cefnogi ymarferwyr i asesu eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain mewn perthynas â mewnosod y Gymraeg/dwyieithrwydd;
- Cynnig cyfle i rwydweithio gydag ymarferwyr eraill yng Nghymru a bod yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer datblygiad pellach.

A yw'r hyfforddiant yn iawn i mi?
Anelir y cynllun at ymarferwyr sy'n ymgymryd â chwrs TAOR neu TAQA, neu sydd eisoes wedi llwyddo i ennill y cymwysterau hyn yn ddiweddar. Mae hefyd yn agored i ymarferwyr sydd yn cymryd rhan yn y cynllun Cymraeg Gwaith mewn Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

Hyd a lleoliad
Mae'r cynllun mentora yn cynnwys hyd at 14 o oriau cyswllt yn ystod y flwyddyn academaidd, yn cynnwys mentora un i un, mentora mewn grwpiau, gweminarau a chefnogaeth gan gymheiriaid.

Key details

Aim
The purpose of the mentoring programme is to support practitioners in real learning situations by offering them guidance and support to embed Welsh/bilingualism with learners in the classroom and/or workplace.

What to expect
The programme is designed to support practitioners in real life learning and assessment situations by:

- Offering guidance to support practitioners in embedding Welsh/bilingualism with learners in the classroom and/or in the workplace;
- Outlining the need to develop the practice of embedding Welsh/bilingualism which is natural and balanced;
- Discussing methodology to develop different techniques for embedding Welsh/bilingualism;
- Supporting practitioners to assess their own strengths and weaknesses in relation to embedding Welsh/bilingualism;
- Offering an opportunity to network with other practitioners in Wales and be part of a professional learning community;
- Planning for further development.

Is this training right for me?
The programme is aimed at practitioners who are undertaking a PGCE or TAQA course, or who have recently achieved these qualifications. It is also open to practitioners who participate in the Further Education and Apprenticeships Work Welsh scheme.

Length and location
The mentoring programme consists of up to 14 hours contact during the academic year, including one-to-one mentoring, group mentoring, webinars and peer support.

Cliciwch yma i ddatgan diddordeb yn y cynllun mentora.
Click here to express an interest in the mentoring programme.

Sgiliaith

Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol

Canolfan Sgiliaith, Penrallt, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5EB
Rhif Ffôn / Telephone: 01758 704613
Gwefan / Website: www.gllm.ac.uk/sgiliaith/
Ebost / Email: sgiliaith@gllm.ac.uk

@sgiliaith